# Gwella Gwasanaethau: Darpariaeth i Ofalwyr

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL—SOCIAL SERVICES

Canlyniadau'n Cyfrif: Cerdyn Atebolrwydd Perfformiad
Mehefin 2010



# Gwella Gwasanaethau


## Canlyniad
Bydd Gofalwyr yn cael mynediad at gefnogaeth a gwasanaethau addas sy'n ymateb i'w anghenion

## Ein Cwsmeriaid
Gofalwyr yw pobl sy'n gofalu'n ddi-dâl am briod neu bartner, plentyn, perthynas neu ffrind sy'n sâl, yn anabl neu mewn oed ac yn fregus. Gall y gofalydd fod yn blentyn neu'n oedolyn.


## Pam fod hyn yn bwysig?
Er mwyn cefnogi hawl gofalwyr i gefnogi eu hanwyliaid yn unol â'u dewis. Mae'r wybodaeth sydd gennym yn tystio bod gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc, yn dymuno gofalu er mwyn hybu annibynniaeth eu hanwyliaid a'u galluogi i aros yn eu cartrefi a'u cymuned. Er mwyn cyflawni mae angen cefnogaeth a gwasanaethau cefnogol.

## Dangosyddion Calonogol


### Nifer o Ofalwyr a Adnabuwyd
Mae'r nifer o ofalwyr sy'n cael eu hadnabod wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.




### Nifer o Ofalwyr sy'n Derbyn Gwasanaeth
Mae'r niferoedd sy'n derbyn gwasanaeth gan y Cyngor wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn er i'r canran sy'n cael gwasanaeth syrthio gan fod y niferoedd a adnabuwyd yn cynyddu.





### Canran o Ofalwyr sy'n Disgwyl am asesiad
Mae'r niferoedd sy'n disgwyl am asesiad ar diwedd y flwyddyn—y rhestr aros— yn isel iawn. Rydym yn perfformio llawer gwell na chyfartaledd Cymru yn y maes hwn.





## Dangosyddion sydd angen gwella


### Nifer o Ofalwyr Ifanc a Chafodd eu Hadnabod:
Mae'r nifer yma'n isel, ac yn is na llynedd. Mae'r canrannau sy'n cael eu hasesu ac wedyn yn derbyn gwasanaeth wedi cynyddu—ond mae'r niferoedd wedi gostwng. Mae rhan o'r rheswm i'r gostyngiad yma i lawr i sut ydym yn mesur gofalwyr ifanc ac fydd hyn yn faes i wella.




### Canran o Ofalwyr a Chafodd eu Asesu neu Arolygu
Mae'r ffigwr yma'n isel gan nad yw pob gofalwr sy'n cael cynnig asesiad yn mynd ymlaen i'w dderbyn.




### Canran o Ofalwyr sy'n Derbyn Gwasanaeth
Er fod y nifer o ofalwyr sy'n derbyn gwasanaeth wedi cynyddu, mae'r canran yn gwaethygu. Mae hyn yn rhannol oherwydd y cynydd yn y nifer o ofalwyr.



# Darpariaeth i Ofalwyr

## Y stori tu ôl i'r perfformiad.

Mae dros 89,000 o ofalwyr yng Ngymru sy'n cyfrannu mwy na 50 awr yr wythnos o ofal di-dal (2001). Mae nifer o'r rhain yn adrodd bod eu hiechyd hwy'n dioeddef. Mae tystiolaeth bod plant a phobl ifanc sy'n ofalwyr yn dioeddef o fwlio. Yn ogystal maent yn colli allan ar gyfleodd addysg a hamdden. Gyda phroffil demograffig Gwynedd â'r galw dwys o ran anghenion pobl hŷn a phlant mewn angen, fydd nifer gynyddol o unigolion a theuluoedd yn ddibynnol ar gefnogaeth gofalwyr.

O ystyried y data cenedlaethol a'r wybodaeth ar gael yma yng Ngwynedd gallwn amcangyfrif bod tua 3,000 o ofalwyr. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol (Plant ac Oedolion) yn ymwybodol o 722 ac yn cefnogi 177.

Datganwyd yn 2007 bod gofalwyr yn cyfrannu cyfwerth â £3.5 biliwn tuag at gostau gofalu yng Nhgymru. Byddai hynny'n gyfystyr â **£120 miliwn** yma yng Ngwynedd.

Fe adnabuwyd datblygu'r rhaglen gofalwyr fel blaenoriaeth yng Nghynllun Tair Blynedd y Cyngor 2008-11. Er mwyn adnabod sut i gefnogi gofalwyr a chydlynnu darpariaethau'n well adnabuwyd yr angen i benodi swyddog cydlynnu fel blaenoriaeth gan y Gwasanaeth a Grŵp Strategaeth Gofalwyr. Penodwyd swyddog dros dro yn ystod 2008 i gydlynnu ac ymestyn rhaglen waith y bartneriaeth. Cymeradwyd sefydlu swydd barhaol gan Gyngor Gwynedd yn ystod Mai 2010.
O fewn Gwasanaethau Cymdeithasol rhoddwyd blaenoriaeth i sefydlu trefniadau adnabod ac asesu gofalwyr yn ystod 2009-10. Nid oedd gwybodaeth ddibynadwy ar gael yn flaenorol.

Mae anghenion gwybodaeth gofalwyr wedi eu hadolygu – a phecyn gwybodaeth ar gyfer gofalwyr wedi ei lansio yn eisteddfod Y Bala 2009 a wedi cael ei ail brintio ar sail dymuniad gofalwyr.

## Sut byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo?

| | Nifer | Ansawdd |
|---|---|---|
| **Ymdrech** | • Nifer o ofalwyr wedi eu hadnabod<br>• Nifer o ofalwyr wedi eu hasesu<br>• Nifer o ofalwyr yn derbyn Gwasanaeth<br>• Nifer o ofalwyr ifanc | • Canran o ofalwyr yn disgwyl am asesiad<br>• Canran o ofalwyr a gaiff gynnig asesiad neu arolygiad<br>• Canran o ofalwyr a gaiff eu hasesu neu eu harolygu<br>• Canran o ofalwyr ifanc a gaiff eu hasesu |
| **Effaith** | • Canran o ofalwyr sy'n oedolion sydd wedi derbyn gwasanaeth<br>• Canran o ofalwyr ifanc sydd wedi derbyn gwasanaeth | • % o ofalwyr sy'n oedolion sy'n datgan fod gwasanaethau maent wedi eu derbyn wedi cael effaith bositif ar eu bywydau<br>• % o ofalwyr ifanc sy'n datgan fod gwasanaethau maent wedi eu derbyn wedi cael effaith positif ar eu bywydau |

## Partneriaid

- (Aelodau'r Partneriaeth) Partneriaeth Iechyd a Lles yn arwain ar ran parterniaethau Gwynedd. Gwasanaethau Cymdeithasol yn arwain ar ran y Cyngor
- Aelodau'r Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd.
- Adran Gwasanaethau Cymdeithasol
- Adran Ysgolion
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cynhalwyr Cymru / Carers Wales
- Mantell Gwynedd
- Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr
- Crossroads Care / Gofal Croesffyrdd
- Cyngor Henoed Gwynedd & Mon
- Age Cymru
- Cymdeithas Alzheimers
- Hafal
- Gweithredu Dros Blant
- Pencampwr Gofalwyr

# Beth allwn ni wneud yng Nghyngor Gwynedd?

## Canlyniadau

*Bydd Gofalwyr yn cael mynediad at gefnogaeth a gwasanaethau addas sy'n ymateb i'w anghenion*

## Gweithredoedd ac allbynnau

- **Sicrhau gwybodaeth gywir i ofalwyr**
  - ⇒Cynnal trafodaeth gyda Deudraeth Cyf i gael diweddariad ar y cynnydd a chynllunio ar gyfer y dyfodol
  - ⇒Datblygu ffeil gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael i weithwyr
  - ⇒Adnabod sut i wella a datblygu gwefan y Cyngor o ran cynnwys cyfredol ar gyfer gofalwyr
  - ⇒Ymchwilio i ddulliau newydd o gyflwyno gwybodaeth
- **Creu Siarter Hawliau Gofalwyr**
  - ⇒Cynnal sesiwn trafod ar siarter hawliau yn Bartneriaeth Gofalwyr Gwynedd i gytuno cynwys a fformat
  - ⇒Llunio Strategaeth Gofalwyr Gwynedd 2011-14
  - ⇒Cytuno ar Ddogfen Polisi Gofalwyr ar gyfer Oedolion a Gofalwyr Ifanc
- **Sicrhau ffurflen Asesu Gofalwr cynhwysfawr**
  - ⇒Datblygu ffurflen gyfeirio ymlith asiantaethau
  - ⇒Rhannu'r Ffurflen Asesu Gofalwyr newydd gydag asiantaethau
  - ⇒Trefnu hyfforddiant ar gyfer timau Gwasanaethau Cymdeithasol ar y ffurflen newydd gan dynnu sylw at y gwasanaethau sydd ar gael
- **Gwella Gwasanaethau i Ofalwyr**
  - ⇒Casglu data ar gyfeririadau gofalwyr i sefydlu gwaelodolin a thargedau
  - ⇒Adnabod pa ddarpariaeth ysbaid sydd ar gael ar hyn o bryd gan gynnwys defnydd o Teleofal
  - ⇒Datblygu trefn i gasglu gwybodaeth am anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu
  - ⇒Datblygu strwythur i gasglu'r data yma
  - ⇒Gwahodd Swyddog Cludiant Cymunedol Gwynedd i gyfarfod y Bartneriaeth i drafod gofynion cludiant gofalwyr
  - ⇒Cynllunio cerdyn adnabod ar gyfer gofalwyr ifanc i'w defnyddio mewn ysgolion
  - ⇒Sgopio darpariaeth ar gael o fewn Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd i gynofalwyr
  - ⇒Hybu defnydd o Daliadau Uniongyrchiol
  - ⇒Adnabod angen a chyfleon gofal ysbaid ar gyfer comisiynu darpariaeth cost effeithiol
  - ⇒Lleihau rhestr aros am ofal ysbaid ar gyfer plant anabl a sal ac ym maes oedolion